**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus John Glen AS
Prif Ysgrifennydd y Trysorlys

26 Mai 2023

Annwyl John,

Gwahoddiad i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys

Diolch am eich ymateb ar 5 Mai, er ei bod yn destun gofid mawr eich bod wedi gwrthod ein gwahoddiad i ddod i sesiwn Pwyllgor Cyllid y Senedd.

Rydym yn deall eich bod, fel aelod o Lywodraeth y DU, yn atebol i Senedd y DU ar gyfer eich penderfyniadau treth a gwariant. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn fy llythyr ar 22 Mawrth, mae gan y Pwyllgor ddiddordeb rhesymegol a naturiol yn y penderfyniadau cyllido a wneir gan y Trysorlys a'i effaith ar faterion datganoledig, a'r materion hyn, sy'n ymwneud ag agweddau craidd ar ein cylch gorchwyl, yr hoffem eu trafod â chi'n fanylach. Mae eich amharodrwydd i gymryd rhan mewn sesiwn Pwyllgor yn gwrthod y cyfle hwn i'n Haelodau.

Hoffwn hefyd eich atgoffa yr argymhellodd adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru, sef Tegwch ac atebolrwydd: setliad ariannu newydd i Gymru, y dylid gwahodd un o Weinidogion y Trysorlys i gyfarfod â Phwyllgor Cyllid y Senedd o leiaf unwaith ym mhob cyfnod adolygu gwariant i drafod yr arian sydd ar gael i Gymru. Ar hyn o bryd, mae'n ddwy flynedd ers dechrau tymor y Senedd hon ac rydych chi a'ch rhagflaenydd wedi gwrthod dod i sesiwn. At hynny, gwnaeth Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd nifer o geisiadau i'ch rhagflaenwyr a wrthodwyd. Felly, mae cryn amser wedi bod ers i un o Weinidogion y Trysorlys fod yn barod i ymgysylltu â ni. Mae'r patrwm anffodus hwn yn bwrw amheuaeth ar barodrwydd Llywodraeth y DU i ryngweithio â'r deddfwrfeydd datganoledig ac i gael ei dwyn i gyfrif ar gyfer penderfyniadau a wneir gan y Trysorlys yn ganolog sy'n cael effaith sylweddol ar weithrediad cyllid datganoledig.

Ar sail eich cyfrifoldeb am fuddiannau'r trysorlys mewn datganoli i Gymru, gan gynnwys mewn meysydd heb eu datganoli, rydym yn teimlo y bydd gwerth y broses graffu yn cael ei danseilio gan eich diffyg ymgysylltu ac rydym yn eich annog i ailystyried eich penderfyniad i beidio â dod i un o'r slotiau Pwyllgor a ganlyn (bore yn unig). Gallwn hwyluso'r sesiwn hon wyneb yn wyneb neu o bell:

- Dydd Iau, 8 Mehefin 2023
- Dydd Mercher, 21 Mehefin 2023
- Dydd Mercher, 28 Mehefin 2023
- Dydd Iau, 6 Gorffennaf 2023
- Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2023

Ein gobaith yw y gallwn ddatblygu perthynas fwy adeiladol â Thrysorlys y DU ac edrychwn ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.